Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Nodyn canllaw Llywodraeth Cymru ar brosesu gohebiaeth oddi wrth gynrychiolwyr etholedig

Canllawiau i Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd Ewrop a Chynghorwyr sy'n ysgrifennu at weinidogion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Gorffennaf 2013

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Gorffennaf 2013

Wrth ysgrifennu at y Gweinidogion gofynnir i gynrychiolwyr etholedig ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost Gweinidogol sydd wedi'u sefydlu yn benodol i dderbyn gohebiaeth Weinidogol. Mae'r rhain i'w cael ar ein **tudalen Ysgrifennu at y Gweinidogion**. Peidiwch â defnyddio'r cyfeiriadau e-bost sydd gan y Gweinidogion fel Aelodau o'r Senedd i anfon gohebiaeth sy'n cael ei hanfon atynt yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidog. Mae gwneud hynny'n golygu bod mwy o amser yn mynd heibio cyn iddynt allu ymateb gan fod yr ohebiaeth yn gorfod cael ei hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru cyn i ni allu dechrau ymdrin â

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ysgrifennu-weinidogion-gohebiaeth-oddi-wrth-gynrychiolwyr-etholedig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hi.

Er bod Gweinidogion unigol yn gallu mynd ati yn wahanol, ar y cyfan pan gawn ohebiaeth Weinidogol mae'n cael ei throsglwyddo i'r adran bolisi berthnasol. Yno, bydd gweision sifil yn paratoi cyngor i'r Gweinidog ar dermau ymateb. Mae hyn yn galluogi'r Gweinidog i ystyried y llythyr yng nghyd-destun yr holl wybodaeth gefndir berthnasol a chyfoes sydd ar gael. O ddefnyddio'r dull hwn bydd y Gweinidogion fel rheol yn gweld gohebiaeth am y tro cyntaf pan gaiff ei chyflwyno iddynt ynghyd â'r wybodaeth a'r cyngor cefndir perthnasol. Os bydd staff y Gweinidogion yn penderfynu bod angen i'r Gweinidog roi sylw personol ar unwaith i ohebiaeth gallant sicrhau bod y Gweinidog yn ei gweld cyn i'r gweision sifil baratoi eu cyngor.

Mae'r Gweinidogion yn anelu at ymateb yn bersonol i'r holl ohebiaeth a ddaw i law oddi wrth gynrychiolwyr etholedig. Maent yn ceisio gwneud hynny o fewn targed Lywodraeth Cymru o 17 diwrnod gwaith. Yn aml, anfonir ymateb yn llawer cynt na hyn. Fe gewch gydnabyddiaeth yn nodi erbyn pa ddyddiad y gallwch ddisgwyl ateb.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ysgrifennu-weinidogion-gohebiaeth-oddi-wrth-gynrychiolwyr-etholedig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Nodyn canllaw Llywodraeth Cymru ar brosesu gohebiaeth oddi wrth gynrychiolwyr etholedig** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/ysgrifennu-weinidogion-gohebiaeth-oddi-wrth-gynrychiolwyr-etholedig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ysgrifennu-weinidogion-gohebiaeth-oddi-wrth-gynrychiolwyr-etholedig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.